



# Y Brifysgol Agored Siarter Myfyrwyr



# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	3
<b>Siarter Myfyrwyr</b>	4-7
Rydym yn trin ein gilydd ag urddas a pharch	4
Ein nod yw ysbrydoli a galluogi dysgu	5
Rydym yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ddysgu	6
Gweithiwn gyda'n gilydd er mwyn sicrhau cenhadaeth y Brifysgol ac i hyrwyddo gwerthoedd y Brifysgol	7
<b>Gwybodaeth bellach</b>	8

Mae'r Brifysgol Agored yn gorfforedig drwy Siarter Brenhinol (RC000391), yn elusen a eithrir yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestrdig yn yr Alban (SC038302). Awdurdodir a rheoleiddir y Brifysgol Agored gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

# Cyflwyniad



Mae'r Brifysgol Agored yn fwy na dim ond lle i ddysgu - mae'n gymuned.

Fel aelodau o'r gymuned mae gennym gyfrifoldebau tuag at ein gilydd, cyfrifoldebau, os ydym oll yn eu cyflawni, sy'n galluogi myfyrwyr i gyrraedd eu llawn botensial ac i'r Brifysgol fynnu.

Mae'r Siarter hon, a ddatblygwyd ar y cyd rhwng y Brifysgol a Chymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol Agored, yn nodi ein cyfrifoldebau a'r hyn y gallwn ei ddisgwyl oddi wrth ein gilydd. Er ei fod yn rhoi cysylltiadau â rheoliadau a pholisïau'r Brifysgol Agored a Chymdeithas y Myfyrwyr, datganiad gwerthoedd ydyw yn hytrach na llyfr rheolau. Mae'n disgrifio'r ffordd y dylai aelodau o'r Brifysgol Agored - staff a myfyrwyr - gydweithio er budd pawb. Mae'r Brifysgol a Chymdeithas y Myfyrwyr yn cymryd y Siarter o ddifri ac yn gwbl ymrwymedig i gadw at ei hegwyddorion.

Wrth i'r Brifysgol newid a datblygu, mae ein cyfrifoldebau fel aelodau yn newid a datblygu. Byddwn yn adolygu'r Siarter hon bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu ein hanghenion a'n heriau cyfredol, tra'n parhau i gefnogi'r prif nod o helpu ein myfyrwyr i lwyddo.



Mary Kellett, Is-Ganghellor Dros Dro

Nicola Simpson, Llywydd Cymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol Agored

# Rydym yn trin ein gilydd ag urddas a pharch

Fel aelodau o gymuned groesawgar a chynhwysol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- gwerthfawrogi amrywiaeth a chydabod bod pobl yn cyfrannu safbwyntiau, syniadau, gwybodaeth a diwylliant gwahanol a bod y gwahaniaeth hwn yn gryfder;
- trin ein gilydd â chwarteisi a pharch, herio anghydraddoldebau, rhagweld ac ymateb yn gadarnhaol i anghenion ac amgylchiadau gwahanol;
- parchu hawliau unigolion i arddel credoau a safbwyntiau gwahanol ac i'w mynegi drwy gyfrannu'n briodol at ddadleuon a thrafodaethau academaidd;
- parchu cyfrinachedd a defnyddio'r wybodaeth a roddwyd i ni at y dibenion dilys bwriadedig yn unig;
- cyfathrebu â'n gilydd mewn ffyrdd sy'n glir, perthnasol, parchus, cywir ac amserol, ac a amlygir drwy ddeialog tryloyw ac adeiladol.



# Ein nod yw ysbrydoli a galluogi dysgu

Fel aelodau o'r gymuned academiaidd, byddwn yn gwneud y canlynol:

- darparu cwricwlwm addysg uwch sy'n cynnig dewis, sy'n gwneud dysgu ac ymchwil yn hygyrch ac yn ymdrechu i ddiwallu anghenion ein myfyrwyr a'r cymunedau maent yn byw ac yn gweithio ynddynt;
- darparu deunyddiau dysgu o bell, dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer a hyfforddiant doethurol o ansawdd uchel;
- anelu at gefnogi pob myfyriwr mewn ffordd sy'n briodol iddynt ddatblygu fel dysgwr neu ymchwilydd ymgysylltiol ac annibynnol;
- datblygu a manteisio ar dechnolegau newydd sy'n galluogi pobl i ddysgu mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion unigol, gan ddarparu dulliau dysgu hyblyg sy'n cyd-fynd â bywydau ac ymrwymadau myfyrwyr ac sy'n helpu i oresgyn rhwystrau i astudio;
- cefnogi myfyrwyr i gyflawni canlyniadau datblygiad personol a gyrfaol cadarnhaol;
- parhau i gyrraedd mwy o fyfyrwyr drwy gynnig ystod eang o opsiynau astudio a chymwysterau.
- cynnal safonau academiaidd uchel drwy asesu teg a heriol;
- datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth drwy ymchwil a gweithgareddau ysgolheigaidd sy'n cyfrannu at y gymuned ymchwil fyd-eang, a gynhelir i safon foesebol uchel, ac sy'n meithrin enw da'r Brifysgol fel canolfan o ragoriaeth academiaidd;
- darparu gwybodaeth amserol, glir, gywir a hygyrch, gan gynnwys unrhyw newidiadau rydym yn eu gwneud sy'n effeithio ar brofiad y myfyrwyr, megis gwybodaeth am gostau astudio a'r cwricwlwm.





# Rydym yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ddysgu

Fel myfyrfwyr sy'n aelodau o'r gymuned, byddwn yn gwneud y canlynol:

- defnyddio'r wybodaeth, y cyngor, yr arweiniad a'r gwasanaethau a ddarperir i gefnogi ein dysgu ac i gyflawni ein nodau gyrfa;
- ymrwymo i astudio, defnyddio'r deunyddiau a'r adnoddau dysgu sydd ar gael i ni er mwyn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer astudio ar y lefel briodol ac i gwblhau'r dysgu, yr ymchwil a'r gweithgareddau asesu a drefnwyd;
- cyfrannu at, a chynorthwyo eraill i gyfrannu at, rannu syniadau academaidd wrth gydweithio â'n gilydd a staff Y Brifysgol Agored;
- defnyddio'r cymorth addysgu a dysgu a'r oruchwyliaeth a ddarperir mewn ffordd gyfrifol, ymgysylltu ac ymateb i adborth tra'n cadw cyfrifoldeb personol am ein dysgu a'n hymchwil ein hunain, ac yn cadw'r safonau uchaf o ran gonestrwydd academaidd.



## Egwyddor

# 4

# Gweithiwn gyda'n gilydd er mwyn sicrhau cenhadaeth y Brifysgol ac i hyrwyddo gwerthoedd y Brifysgol

i fod yn agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau;  
i fod yn gynhwysol, arloesol ac ymatebol.

Fel aelodau o gymuned gydweithiol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- gwneud y Siarter hon a'i hegwyddorion yn bwynt cyfeirio sylfaenol wrth ddatblygu strategaethau, polisiau, gweithdrefnau, rhaglenni a phrosiectau'r Brifysgol sy'n ymwneud â phrofiad y myfyriwr;
- cefnogi hawliau myfyriwr i gymryd rhan yn y gwaith o lywodraethu'r Brifysgol drwy Gymdeithas Myfyriwr y Brifysgol Agored;
- cefnogi Cymdeithas Myfyriwr y Brifysgol Agored i ymgysylltu â'i holl aelodau i feithrin cymuned myfyriwr bywiog ac i hyrwyddo eu buddiannau addysgol a chymdeithasol;
- ymgynghori gyda'n gilydd, annog cyfranogaeth a dileu rhwystrau i gyfranogi, a chroesawu adborth adeiladol er mwyn gwella profiad y myfyriwr. Rydym yn hysbysu ein gilydd lle a phryd y gweithredir ar adborth, neu lle nad yw newid yn bosibl, ac yn nodi'r rheswm pam na ddigwyddodd hyn;
- cynnal a gwella safonau ac enw da ein Prifysgol, gan gydnabod y cyfraniadau y mae'r holl aelodau yn eu gwneud i'w llwyddiant;
- ymrwymo i ddyfodol economaidd ac amgylcheddol cynaliadwy i'n Prifysgol;
- darparu a defnyddio dulliau teg ac agored o ymdrin â'n pryderon a'n cwynion er mwyn dysgu oddi wrthynt er mwyn gwella'r hyn a wnawn;
- annog graddedigion a chyn-fyfyriwr i barhau i fod yn rhan o gymuned y Brifysgol Agored drwy'r gymdeithas cyn-fyfyriwr.



# Rhagor o wybodaeth

## Siarter y Myfyrwyr

I gael rhagor o wybodaeth am Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored, ymwelwch â'r wefan:

[www.open.ac.uk/students/charter](http://www.open.ac.uk/students/charter)

Gwefan Siarter y Myfyrwyr yw'r man lle y daw Ymrwymadau'r Siarter ynghyd â pholisïau, rheolau ac adnoddau'r Brifysgol i ddangos sut rydym yn eu cyflawni.



## Cynllun Iaith Gymraeg

I gael rhagor o wybodaeth am y canlynol:

- cyfrifoldebau'r Brifysgol Agored o ran Deddf yr Iaith Gymraeg
- cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
- ymgysylltu'r Brifysgol Agored â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

ewch i wefan y Brifysgol Agored yng Nghymru yn:

[www.open.ac.uk/wales/cy/amdanom-ni/cynllun-iaith-gymraeg](http://www.open.ac.uk/wales/cy/amdanom-ni/cynllun-iaith-gymraeg)

## Adborth

Hoffem glywed eich barn am eich profiadau gyda'r Brifysgol Agored a pha mor dda rydym yn cadw at yr ymrwymadau rydym yn eu gwneud yn Siarter y Myfyrwyr. Gallwch roi eich adborth i ni drwy ddefnyddio'r ffurflen, sydd i'w chael yn: [www.open.ac.uk/students/charter/feedback](http://www.open.ac.uk/students/charter/feedback)

## Cysylltu

Y Brifysgol Agored Walton Hall, Milton Keynes MK7 6AA

Ffôn: +44 (0)1908 274066 Gwefan: [www.open.ac.uk](http://www.open.ac.uk)

Cymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol Agored, PO Box 397, Walton Hall,  
Milton Keynes MK7 6BE

Ffôn: +44 (0)1908 652026 Gwefan: [www.open.ac.uk/ousa](http://www.open.ac.uk/ousa)

Mae fformatau eraill ar gael ar gais.